**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD EUR-01-00(p.9)**

Dyddiad: 9 Mawrth 2000

Amser: 9.30-12.30

Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 1

Teitl: Ehangu'r Undeb Ewropeaidd – y Goblygiadau a'r Cyfleoedd i Gymru

## Diben

1. Cyflwyno papur trafod i'r Pwyllgor ar y goblygiadau a'r cyfleoedd i Gymru yn sgil Ymestyn yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys yr Adroddiad.

**Cefndir**

3. Mae'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn ystyried ceisiadau gan nifer o wledydd yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop sy'n dymuno ymuno. Bydd aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r trafodaethau hyn gael eu cwblhau. Sefydlwyd y Cymunedau Ewropeaidd yn y 1950au gan chwe gwlad; ymunodd tair arall ym 1973; tair arall ym 1980; a thair arall yn y 1990au (Atodiad A). Ar hyn o bryd mae pymtheg gwlad yn aelod o'r Undeb. Ac mae tair gwlad ar ddeg yn rhan o'r broses i ymestyn yr Undeb.

- Dechreuodd y trafodaethau â Cyprys, y Weriniaeth Siec, Estonia, Hwngari, Gwlad Pwyl a Slofenia ym 1998
- Ym 1999 penderfynodd y Cyngor Ewropeaidd y dylid mynd ati i drafod â Bwlgaria, Latfia, Lithwania, Malta, Rwmania a Slofacia
- Yn Rhagfyr 999 penderfynodd y Cyngor Ewropeaidd y dylid mynd ati i ddechrau trafod â Thwrci.

4. Mae'r trafodaethau ar gyfer ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn cynnwys amryw o faterion, gan gynnwys datblygiad economaidd a strwythurau gwleidyddol. Mae cyfanswm o 31 sector economaidd, a adnabyddir fel Penodau, yn cael eu trafod yn ystod y trafodaethau. Dywedodd Cyngor Ewropeaidd Copenhagen bod "membership requires that the candidate country has achieved stability of institutions

guaranteeing democracy, the rule of law, human rights, and the respect for and protection of minorities". Erbyn diwedd y trafodaethau rhaid i wledydd sy'n gwneud cais i ymuno ddangos bod modd iddynt fabwysiadu'r acquis communautaire, neu gorff cyfraith y Gymuned Ewropeaidd.

5. Fel paratoad ar gyfer ehangu ymhellach mae'r Undeb Ewropeaidd yn ystyried ei strwythur sefydliadol ei hun, a bydd Cynhadledd Ryng-lywodraethol yn cael ei chynnal yn ystod 2000 er mwyn ystyried nifer o newidiadau. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cytuno y dylid gorffen yr adolygiad erbyn diwedd y flwyddyn hon, a gweithredu unrhyw newidiadau erbyn 2002. Disgwylir y bydd rhai o'r gwledydd sydd am ymuno wedi cwblhau eu trafodaethau ar gyfer mynediad erbyn diwedd 2002 ac y byddant yn barod i ymuno bryd hynny. Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r gwledydd sydd am ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn gwneud hynny yn ystod y degawd nesaf, a hynny o dipyn i beth, gyda'r gwledydd yn ymuno cyn gynted ag y byddant yn gallu cydymffurfio â'r acquis communautaire.

**Goblygiadau i Gymru**

6. Bydd ymestyn yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu at sefydlogrwydd gwleidyddol Ewrop. Bydd yn creu set newydd o amgylchiadau a chyfleoedd – nid yn unig ar gyfer y gwledydd sydd am ymuno ond hefyd ar gyfer rhanbarthau megis Cymru. Gall ehangu'r undeb fod yn fanteisiol i Gymru, ond mae peryglon hefyd. Y manteision yw:

- Fel bloc, yn y gwledydd sydd am ymuno y mae'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn Ewrop ac felly gall llunio cysylltiadau yn awr arwain at fanteision yn y dyfodol
- Mae profiad Cymru o ran adfywiad economaidd, gwleidyddol a chenedlaethol dros yr ugain mlynedd diwethaf yn berthnasol i'r newidiadau sydd ar droed yn y gwledydd sydd am ymuno
- Mae'n bosibl y bydd arbenigedd Cymru mewn ystod o offerynnau'r Undeb Ewropeaidd, megis y Cronfeydd Strwythurol, o ddiddordeb i bartneriaid yn y gwledydd hynny sy'n dymuno ymuno.

7. Ond gall canlyniadau ymestyn fod yn negyddol hefyd:

- Bydd ymestyn tua'r Dwyrain yn gogwyddo daearyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd, a bydd Cymru yn darganfod ei hun fwy fwy ar gyrion gorllewinol yr Undeb Ewropeaidd
- Gall costau llafur is yn Nwyrain a Chanolbarth Ewrop ddenu math penodol o fuddsoddi tramor i ffwrdd o Gymru
- Wrth i wledydd tlotach ymuno â'r Undeb Ewropeaidd gall ffynonellau ariannol megis y Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaeth Cyffredin gael eu hailgyfeirio yn y dyfodol i ffwrdd o Orllewin Ewrop
- Bydd raid i Gymru gael llais cryfach fyth yn Ewrop os yw am gael ei hunaniaeth ei hun yn yr Undeb Ewropeaidd gyda dros ugain o aelod wladwriaethau a channoedd o ranbarthau.

8. Yn ddiweddar cynhaliodd Canolfan Ewropeaidd Cymru ymchwil helaeth i asesu goblygiadau ehangu'r Undeb ar Gymru, ac i ganfod strategaeth a fyddai'n sicrhau bod Cymru yn elwa ar hyn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2000 a bydd ar gael i aelodau'r Pwyllgor.

**Rhaglenni i Gynorthwyo Gwledydd sydd am Ymuno i baratoi ar gyfer Aelodaeth**

9. Mae’r Undeb Ewropeaidd wedi sefydlu nifer o raglenni i gynorthwyo gwledydd yng nghanolbarth a dwyrain Ewrop i baratoi ar gyfer aelodaeth. Y pedair prif raglen yw:

a. **Phare** – Amcan y rhaglen hon yw cynorthwyo’r gwledydd yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop i ailymuno â phrif ffrwd datblygiad Ewropeaidd ac adeiladu cysylltiadau gwleidyddol ac economaidd agosach gyda’r Undeb Ewropeaidd. Mae Phare yn cynnig grantiau i gynnal y broses o drawsffurfiad economaidd ac i gryfhau cymdeithasau democrataidd sydd newydd eu creu. Mae’r rhaglen yn agored i ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat.

b**. Gefeillio** – Mae’r rhaglen efeillio yn cael ei hariannu drwy Phare. Mae’n darparu’r fframwaith ar gyfer llywodraeth ganol yn y gwledydd sy’n dymuno ymuno i weithio gyda gwledydd cyfatebol mewn Aelod Wladwriaethau er mwyn datblygu a gweithredu prosiectau sy’n cynnwys trawsosod, gorfodi a gweithredu rhannau penodol o’r acquis communautaire. Fel arfer caiff prosiectau eu rhoi ar waith drwy secondio staff o weinyddiaethau cenedlaethol a rhanbarthol i wledydd sydd am ymuno. Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi chwarae rhan mewn unrhyw brosiectau hyd yma, ond bydd yn monitro ceisiadau am bartneriaid cyn gynted ag y byddant ar gael dros y misoedd nesaf.

c. **Rhaglen Ymuno Arbennig ar gyfer Datblygiad Amaethyddol a Gwledig (SAPARD)** – amcan y rhaglen hon yw cynorthwyo gwledydd sydd am ymuno i ddelio â’r broblem o addasu sectorau amaethyddol ac ardaloedd gwledig yn strwythurol, yn ogystal â gweithredu’r acquis sy’n gysylltiedig â’r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

d. **Offeryn ar gyfer Polisïau Strwythurol cyn i Wledydd Ymuno** – gwnaeth Agenda 2000 ddarpariaeth i neilltuo cyfran o’r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer Canolbarth a Dwyrain Ewrop er mwyn cynorthwyo’r gwledydd hyn i foderneiddio eu seilwaith, ac felly rhoi hwb i’w datblygiad economaidd a’u cynorthwyo i baratoi ar gyfer ymuno â’r Undeb Ewropeaidd.

**Cydymffurfio**

10. O dan Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 gall y Cynulliad ystyried a gwneud cynrychioliadau priodol ynghylch unrhyw fater sy’n effeithio ar Gymru

**Cyswllt**

11. Yr Adran Materion Ewropeaidd

ATODIAD A

**Aelodau’r Cymunedau Ewropeaidd/Undeb Ewropeaidd**

**Llofnodwyr gwreiddiol Cytundeb Paris 1951 a Chytundeb Rhufain 1957**

- Gwlad Belg
- Ffrainc
- Yr Almaen
- Yr Eidal
- Lwcsembwrg
- Yr Iseldiroedd

**Gwledydd a ymunodd ym 1973**

- Denmarc
- Iwerddon
- Y Deyrnas Unedig

**Gwledydd a ymunodd yn y 1980au**

- Groeg (1981)
- Sbaen (1986)
- Portiwgal (1986)

**Gwledydd a ymunodd ym 1995**

- Awstria
- Ffindir
- Sweden